Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Beth mae pobl ifanc (11 i 24 oed) yn ei feddwl am rannu eu safbwyntiau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig?

## Am yr adroddiad hwn

Ym mis Mawrth 2026, gwnaethom ofyn i bobl ifanc beth oeddent yn ei feddwl am rannu eu safbwyntiau â'r llywodraeth, er mwyn i ni allu dysgu beth oedd bwysicaf iddyn nhw.

Ar y tudalennau nesaf, cewch weld beth ddywedon nhw wrthym a'r prif bethau a ddysgon ni o'u hatebion.

## Ein hymchwil

Gwnaethom siarad â 33 o blant a phobl ifanc rhwng 11 a 24 oed mewn pum grŵp ffocws. Roedd pob sesiwn yn para 90 munud.

Roedd y cyfranogwyr yn dod o wahanol leoedd a chefndiroedd, gan gyfarfod wyneb yn wyneb yn Llundain, Manceinion ac Abertawe, ac ymunodd eraill ar-lein. Gwnaeth eu sgyrsiau ein helpu i feithrin dealltwriaeth well o farn pobl ifanc am rannu eu safbwyntiau â'r llywodraeth.

Gwnaethom ofyn i bobl ifanc gwestiynau fel y rhain:

- Beth sy'n dod i'ch meddwl pan glywch chi'r termau gwleidyddiaeth a llywodraeth?
- Sut ydych chi'n teimlo am rannu eich safbwyntiau â'r llywodraeth?
- Pa bethau allai eich atal rhag rhannu eich safbwyntiau?
- Pa bethau allai eich cymell neu eich helpu i rannu eich safbwyntiau?
- Pe baech chi'n gyfrifol am gasglu safbwyntiau cynifer â phosibl o bobl ifanc ar bwnc costau byw a beth y dylai'r llywodraeth ei wneud amdano, sut byddech chi'n gwneud hynny?

Gwnaethom ganfod bod cyfranogwyr iau (rhwng 11 a 15 oed) weithiau'n meddwl yn wahanol am bynciau o gymharu â chyfranogwyr hŷn (rhwng 16 a 24 oed).

# Beth ddywedodd y bobl ifanc wrthym

## Dealltwriaeth o lywodraeth a gwleidyddiaeth

Siaradodd pobl ifanc am yr hyn maen nhw'n ei feddwl am wleidyddiaeth a llywodraeth yn y Deyrnas Unedig.

Nid oedd rhai pobl ifanc yn deall y gwahaniaeth rhwng gwleidyddiaeth a llywodraeth, na beth mae gwahanol sefydliadau'r llywodraeth yn ei wneud.

### Deall gwleidyddiaeth

Dywedodd pobl ifanc eu bod yn gwybod am bethau mawr sy'n digwydd ledled y byd, fel newid hinsawdd a gwrthdaro mewn gwledydd eraill, ond pan oedd hi'n dod at wleidyddiaeth y Deyrnas Unedig, roedden nhw'n aml yn teimlo'n llai gwybodus. Roedd rhai yn meddwl bod gwleidyddiaeth yn rhywbeth i bobl hŷn yn bennaf, ac nad oedd yn rhywbeth roedd angen iddyn nhw wybod llawer amdano eto.

### Sut mae pobl ifanc yn teimlo am lywodraeth

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo bod y llywodraeth wedi eu siomi. Roeddent yn teimlo nad yw'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau bob amser yn gwrando ar eu safbwyntiau. Roedden nhw eisiau gweld tystiolaeth bod rhywun wedi gwrando ar eu barn, a bod eu barn wedi helpu i wneud newid cadarnhaol. Byddai hyn yn eu helpu i deimlo bod rhannu eu safbwyntiau yn werth eu hamser.

"Rwy'n teimlo, wel, yn rhwystredig ac wedi blino, wyddoch chi, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc ac mae'n teimlo fel nad ydyn ni'n cael ein clywed mewn gwirionedd."

(11 i 15 oed)

## Beth sy'n dylanwadu ar benderfyniad pobl ifanc i gymryd rhan mewn ymchwil

Disgrifiodd pobl ifanc amrywiaeth o bethau sy'n gallu dylanwadu ar eu penderfyniad i gymryd rhan mewn ymchwil gan y llywodraeth.

### Ymchwil sy'n bwysig i bobl ifanc

Dywedodd pobl ifanc wrthym y bydden nhw'n fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymchwil pe baent yn gallu gweld yn glir sut y byddai'n eu helpu nhw neu bobl eraill. Roedden nhw eisiau cael eu holi am y pethau sydd bwysicaf yn eu bywydau, fel iechyd meddwl, ysgol a chyfryngau cymdeithasol.

"Rwy'n credu y dylai'r llywodraeth ofyn i bobl ifanc fel fi am effeithiau ein bywyd bob dydd, fel straen yn yr ysgol, cymorth iechyd meddwl, gweithgareddau ar ôl ysgol a sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithio arnom ni... oherwydd mae'n bwysig iawn i ni a gall wneud gwahaniaeth mewn gwirionedd."

(11 i 15 oed)

### Amser ac ymdrech

Dywedodd pobl ifanc wrthym y bydden nhw'n fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymchwil pe bai'n gyflymach ac yn haws ei gynnwys yn eu bywydau bob dydd. Gwnaethon nhw awgrymu cynnal ymchwil mewn lleoedd lle maen nhw eisoes yn treulio amser, fel ysgolion a phrifysgolion. Dywedodd llawer eu bod yn aml mor brysur â phethau pwysig yn eu bywydau eu hunain, fel nad oedd ganddyn nhw amser i ganolbwyntio ar faterion ehangach mewn cymdeithas.

¯_(ツ)_/¯

### Cosbau a chymhellion

Dywedodd pobl ifanc wrthym nad oedden nhw'n cytuno â rhoi dirwy i bobl am beidio â chymryd rhan mewn arolygon fel y Cyfrifiad, ond y bydden nhw'n fwy tebygol o gymryd rhan pe bai risg o gael dirwy. Dywedodd pobl ifanc wrthym y byddai cael arian am eu hamser yn fwy priodol, ond roedd rhai yn poeni a oedd hyn yn ffordd dda o ddefnyddio arian trethdalwyr.

## Gwneud y peth cywir

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn meddwl bod eu cenhedlaeth yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar eu problemau eu hunain nag ar gymdeithas gyfan. Dywedon nhw fod hyn yn debygol oherwydd bod ganddyn nhw gymaint o bryderon am arian ac iechyd meddwl, ac felly roedd hi'n anodd iddyn nhw ganolbwyntio ar faterion tymor hwy. Dywedodd llawer wrthym, pe bydden nhw'n cymryd rhan mewn arolwg, y byddai hynny oherwydd eu bod eisiau gwneud y peth cywir.

"Roedd dod yn sefydlog yn ariannol a byw bywyd gweddol sefydlog yn arfer bod yn llawer haws hefyd. Felly, gan fod hynny wedi mynd yn anoddach, rwy'n credu bod blaenoriaethau pobl ifanc hefyd wedi newid yn sgil hynny."

(16 i 24 oed)

## Hyder ac ofn gwneud camgymeriadau

Dywedodd pobl iau (rhwng 11 a 15 oed) wrthym eu bod weithiau'n poeni na fydden nhw'n deall cwestiynau arolwg yn gywir, yn enwedig pan oedd pwnc yn teimlo'n bwysig iddyn nhw. Roedd rhai yn poeni am roi'r ateb "anghywir". Dywedon nhw hefyd y bydden nhw'n gallu teimlo'n anghyfforddus yn rhannu eu barn o flaen pobl maen nhw'n eu hadnabod, oherwydd eu bod yn poeni y byddai pobl eraill yn eu barnu.

"Gallech chi gamddeall y cwestiwn a gwneud llanast o'r ateb."

(11 i 15 oed)

## Ymddiriedaeth a sgamiau

Dywedodd pobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) wrthym eu bod yn poeni am sgamiau ac achosion o dorri diogelwch data. Felly, mae'r ffordd y mae'r llywodraeth yn dewis cysylltu â nhw, a faint maen nhw'n ymddiried yn y llywodraeth i gadw eu data'n ddiogel, yn bwysig iawn, yn enwedig wrth rannu gwybodaeth bersonol.

"Oni bai ei fod, fel, wedi'i bostio gan dudalen swyddogol, fel tudalen gan y llywodraeth, a'i bod, fel, wedi'i dilysu gan Instagram, TikTok, beth bynnag. Fyddwn i ddim, fyddwn i ddim yn ymddiried mewn unrhyw god QR a oedd newydd gael ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol."

(16 i 24 oed)

## Sut mae'r llywodraeth yn cysylltu â phobl ifanc

Dywedodd pobl ifanc wrthym y bydden nhw'n fwy tebygol o gwblhau arolygon sy'n cael eu hanfon drwy'r post o ddifrif, yn enwedig pe baen nhw'n edrych yn swyddogol ac yn cynnwys logos roedden nhw'n eu hadnabod. Dywedon nhw hefyd y bydden nhw'n rhoi sylw i negeseuon testun (SMS), ond y bydden nhw'n poeni mai sgam oedd hynny. Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod eisoes yn cael llawer o negeseuon e-bost, felly bydden nhw'n anghofio am wahoddiad drwy e-bost.

## Cyfryngau cymdeithasol

Dywedodd pobl ifanc wrthym y byddai cyfryngau cymdeithasol yn lle defnyddiol i ddweud wrth bobl am yr ymchwil ac egluro pam mae'n bwysig, ond na fydden nhw eisiau cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y ffordd honno.

"Os yw'r llywodraeth eisiau annog pobl, pobl ifanc, i wneud hynny, yna dylai gael pobl, yn union fel y dywedoch chi, i fynd ar-lein i siarad am eu profiad, oherwydd rwy'n credu y bydd hynny'n fwy effeithiol."

(16 i 24 oed)

## Llefydd mae pobl ifanc eisioes yn mynd iddyn nhw

Dywedodd pobl ifanc wrthym y byddai'n well ganddyn nhw rannu eu safbwyntiau wyneb yn wyneb, yn enwedig mewn lle maen nhw eisoes ynddo, fel ysgolion neu ganolfannau cymunedol. Dywedon nhw hefyd y bydden nhw'n teimlo'n fwy cyfforddus pe bai person ifanc arall yn casglu'r data.

Bydd y safbwyntiau a'r profiadau a rannodd y cyfranogwyr yn yr ymchwil hon yn helpu i lywio prosiect ymchwil mwy yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i glywed gan hyd yn oed mwy o bobl ifanc a meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r materion sydd bwysicaf iddyn nhw.

Os hoffech chi ddarllen mwy am y canfyddiadau hyn, mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan y SYG.

Cafodd yr ymchwil hon ei chwblhau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) a Hopkins Van Mil.

Swyddfa Ystadegau Gwladol